| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 26 Mehefin 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Cyng. Julian Thompson-Hill – Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol<br>Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Nicola Kneale, Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol |
| **Teitl:** | **Adroddiad Perfformiad y Cynllun Corfforaethol Chwarter 4 - 2017/18** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno diweddariad ar weithrediad Cynllun Corfforaethol 2017-2022 ar ddiwedd chwarter 4 2017/18.

1.2 Mae Atodiad 1 yn rhoi Crynodeb Gweithredol sy'n cynnwys cyflawniadau ac eithriadau allweddol.

1.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys yr adroddiad chwarterol llawn a gynhyrchwyd gan y System Rheoli Perfformiad Verto.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu gwybodaeth am gynnydd y Cyngor ar ddiwedd chwarter 4 2017-18 mewn perthynas â chyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol.

2.2 Mae adrodd yn ôl yn rheolaidd yn un o ofynion monitro angenrheidiol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd i wella.

2.3 Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau pob chwarter i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet ac yn llunio Adroddiad Perfformiad Blynyddol i werthuso'r cynnydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod y Cabinet yn ystyried yr adroddiad, ac yn cytuno ar unrhyw gamau pellach sydd eu hangen i ymateb i unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad a amlygir yn yr adroddiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Dyma'r adroddiad perfformiad llawn cyntaf i gael ei gynhyrchu dan Gynllun Corfforaethol 2017-22, felly darparwyd naratif llawn yn y Crynodeb Gweithredol yn Atodiad 1 (yn hytrach nac un yn seiliedig ar eithriadau, a dyna fydd y broses yn y dyfodol).

4.2 Ar gyfer pob blaenoriaeth, mae dau ddarn o sylwebaeth:
- *Statws Perfformiad* sy'n cynnig naratif ac asesiad o'r hyn y mae'r dangosyddion yn dweud wrthym am ein cymunedau ar hyn o bryd;
- Mae adrannau *Cynnydd Rhaglen* yn amlinell sut y mae prosiectau a nodwyd i gefnogi pob blaenoriaeth yn datblygu.

4.3 Mae'r *Statws Perfformiad* yn rhoi awgrym i ni ynglŷn â sut y mae pethau yn ein cymunedau ar hyn o bryd. Ar ôl cydnabod mai rhain yw'r meysydd yr ydym eisiau eu gwella yn ystod oes y Cynllun Corfforaethol hwn, ni fyddem yn disgwyl i'n perfformiad fod yn dda mewn perthynas â'r dangosyddion hyn ar hyn o bryd.

4.4 Dylai'r rhaglen waith sydd ar waith gennym i fynd i'r afael â'r dangosyddion hyn gael effaith gadarnhaol dros amser, felly mae cynnydd yn y maes hwn yn bwysig. Mae'r statws *Cynnydd Rhaglen* ar gyfer pob blaenoriaeth yn adlewyrchu hyn. Bydd y statws yn hysbysu darllenwyr o ran a yw prosiectau yn cael eu cyflawni ar amser, yn cadw at y gost a'r ansawdd. Mae hwn yn faes pwysig i'r Pwyllgorau Craffu ei ystyried.

4.5 Mae modd cael *Statws Perfformiad* gwael ond statws *Cynnydd Rhaglen* cryf. Wrth i ni symud ymlaen tuag at gwblhau'r Cynllun hwn, rhagwelwn y byddai'r ddau'n cyfateb yn gadarnhaol (h.y. byddai'r ddau yn Dda fan lleiaf).

4.6 Mae Adroddiad Perfformiad Chwarter 4, 2017-18 (Atodiad 2) yn edrych ar Gynllun Corfforaethol 2017-22 ac mae'n rhoi asesiad yn seiliedig ar dystiolaeth am y sefyllfa bresennol.

**5.** **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am ein cynnydd wrth ddarparu'r Cynllun Corfforaethol. Dylai unrhyw benderfyniad a wneir gyfrannu at ddarparu'r Blaenoriaethau Corfforaethol yn llwyddiannus.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2017-22 yn nodi faint o arian yn ychwanegol y mae'r Cyngor yn bwriadu ei fuddsoddi ym mhob blaenoriaeth gorfforaethol dros y pum mlynedd nesaf. Rhagwelir y bydd y Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflwyno yn defnyddio'r buddsoddiad ychwanegol hwn ac o fewn cyllidebau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

7.1 Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y Cynllun Corfforaethol a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor ar 17 Hydref 2017. Nid oes angen asesu'r adroddiad hwn ymhellach gan na fydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cael effaith uniongyrchol ar ein staff nac ar ein cymunedau.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?**

8.1 Daw’r wybodaeth sy'n angenrheidiol i lunio’r adroddiad hwn gan wasanaethau, ac mae'r cynnwys wedi'i drafod gyda’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth er mwyn llunio’r adroddiad ar gyfer y Cabinet. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei gyflwyno ar gyfer trafodaeth yn y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 5 Gorffennaf.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes angen datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Mae gennym ni fframwaith rheoli perfformiad cadarn, proses Herio Perfformiad Gwasanaethau cadarn a Phwyllgor Craffu Perfformiad cryf.

10.2 Nid oes unrhyw risg benodol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a’r Gofrestr Risgiau Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) digwyddiadau posibl o risg a allai olygu na all y Cyngor gyflawni ei Gynllun Corfforaethol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1. Mae rheoli perfformiad a monitro yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, sydd wedi’i thanategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.